Cyd-gyfarfod y Cynghorau

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y Rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 10.00a.m. ddydd Iau 9 Gorffennaf 2020

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Dr Gareth Hughes
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
James Mills
Arwel Ellis Owen
Eirlys Pritchard-Jones
Victoria Provis
Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Georgia Thomas
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.14<br>Protocol ar gyfer y cyfarfod | Amlinellodd y Cadeirydd y protocol ar gyfer y cyfarfod (JCO046). | |
| 20.15<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r diweddariad ar ddatganiadau'r aelodau (JCO047).<br><br>Estynnodd y Cadeirydd groeso i James Mills a Georgia Thomas i'w cyfarfod cyntaf yn llywodraethwyr myfyrwyr PCYDDS. Diolchodd i'r llywodraethwyr myfyrwyr a oedd yn gadael, Becky Ricketts a Martha Warren, am eu cyfraniad i waith y Cyngor. Mynegodd ei ddiolch hefyd i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio) a oedd wedi gadael PCYDDS ym mis Mehefin. | |
| 20.16<br>Cofnodion y cyfarfod | Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai cofnodion anghyfyngedig y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o hyn allan, yn dilyn yr Adolygiadau Effeithiolrwydd Llywodraethu.<br><br>CADARNHAODD y Cynghorau gofnodion anghyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 (JCO048), yn amodol ar ychwanegu Margaret Evans, Tony Ball a Rowland Jones i'r rhestr o'r rhai oedd yn bresennol.<br><br>CYMERADWYODD yr aelodau'r cofnodion i'w cyhoeddi unwaith y byddai'r newidiadau wedi'u gwneud.<br><br>Nid oedd unrhyw gofnodion cyfyngedig i'w cymeradwyo. | Ysgrifennydd i ddiweddaru'r Cofnodion<br><br>Cofnodion Anghyfyngedig i'w cyhoeddi |
| 20.17<br>Materion yn codi a phwyntiau gweithredu nad ydynt yn ymddangos mewn man arall ar yr agenda. | DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (JCO049).<br><br><u>Cod Ymarfer yr Aelodau</u><br>Nododd y Clerc fod swyddfa'r Clerc wrthi ar hyn o bryd yn coladu faint o aelodau oedd wedi llofnodi i ddangos eu bod yn cytuno â'r Cod Ymarfer, a bod cyfyngiadau Covid-19 wedi achosi oedi yn achos rhai. | |
| 20.18<br>Adroddiad Cadeirydd y Cyngor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad Cadeirydd y Cyngor (JCO050). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd y Cadeirydd at y mater canlynol:<br><br><u>Covid 19</u><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y modd yr ymgymerwyd â gwaith y Cyngor a'i bwyllgorau sefydlog yn ystod y cyfnod clo cyfredol a gofynnodd i'r aelodau a oeddent yn hapus â'r trefniadau. Cadarnhaodd yr aelodau, er y bu peth pryderon cychwynnol, eu bod yn hapus â'r prosesau a diolchwyd i'r staff am y gwaith a baratowyd ar eu rhan a diogelwch y gwaith yn ystod y cyfnod. | |
| 20.19<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO051).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y materion canlynol:<br><br>- Yr heriau ariannol sy'n wynebu prifysgolion yn sgil Covid-19. Disgwylid canlyniadau cais cyllido i Lywodraeth Cymru.<br><br>- Cynlluniau adfer yn sgil Covid-19 a'r gwaith a wneir gan swyddogion a staff i hwyluso dychwelyd i'r campws yn hydref 2020.<br><br>- Adolygiad mawr o'r cwricwlwm i bennu safle'r sefydliad ar ôl Covid-19, yn enwedig er mwyn sicrhau bod cynnwys y graddau yn PCYDDS yn adlewyrchu realiti'r heriau cyflogaeth i fyfyrwyr ar ôl Covid-19 ac y gellid cyflwyno'r cwricwlwm trwy ddysgu ar y campws, dysgu cyfunol a hyfforddiant ar-lein.<br><br>- Sefydlu cyfres o Dystysgrifau a Diplomâu Technegol lefel uwch a Graddau Technegol a fyddai'n cael eu cyfeirio at feysydd blaenoriaeth o fewn sectorau a'r llywodraeth.<br><br>- Adolygiad o'r fframwaith bwrsarïau cyfredol, gan arwain at gyflwyno pedwar datblygiad allweddol yn y tymor newydd.<br><br>- Ymateb y Brifysgol i'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.<br><br>- Trefniadau ar gyfer graddio, yn dilyn gohirio seremonïau haf 2020. Roedd y Brifysgol yn paratoi cyfres o seremonïau ar-lein i fyfyrwyr sy'n graddio ar | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
|---|---|---|
| | ddiwedd y flwyddyn academaidd. Cynlluniwyd seremonïau ffurfiol ar eu cyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd.<br><br>O ran y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, nodwyd bod y Senedd, yn ei chyfarfod ym mis Mehefin, wedi ystyried papur ar hanes cymhleth y Brifysgol, yn cynnwys bod Coleg Dewi Sant, Llambed wedi derbyn cymorth ariannol gan bobl yr oedd eu cyfoeth o leiaf yn rhannol yn deillio o gaethwasiaeth. Roedd y Senedd wedi cynnig i Gyngor y Brifysgol y dylai'r Brifysgol greu pecyn priodol o fesurau, yn unol ag amcanion cyffredinol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, i ymateb i'r agwedd hon ar ei hanes sefydliadol. Cytunwyd yn ddiweddarach i gynnig sefydlu nifer o fwrsarïau ac ysgoloriaethau ar gyfer rhaglenni yn Llambed yn benodol ar gyfer myfyrwyr o gefndir du ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, i'w derbyn ar sail teilyngdod academaidd. Cynigiwyd hefyd i sefydlu arddangosfa barhaol yn Llambed i nodi pwysigrwydd gwerthoedd diwylliannol a chodi plac ar gampws Dinefwr yn Abertawe. Cadarnhaodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr fod yr Undeb yn llwyr gefnogi'r cynigion hyn.<br><br>CYTUNODD y Cyngor i gefnogi'r cynigion. | |
| 20.20<br>Adolygiad Camm ar Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru | YSTYRIODD y Cynghorau Adolygiad Camm ar Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru (JCO052) ynghyd â'r cynllun gweithredu a baratowyd gan y Brifysgol mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad a'r Siarter fel y cytunwyd gan y Cadeiryddion a'r Is-Gangellorion.<br><br>Nododd y Clerc fod y Siarter a'r cynllun gweithredu wedi'u hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ym mis Mai 2020 ac wedi hynny gan y Pwyllgor Taliadau ym Mehefin. Mae'r cynllun gweithredu wedi ei anodi i ddangos lle mae PC a PCYDDS arni ar hyn o bryd o ran yr ymrwymiadau a wnaed. Mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer gweithredu wedi'u diweddaru ers hynny yn sgil Covid-19.<br><br>Ystyriodd yr aelodau ddadansoddiad y Clerc o ble'r oedd PC a PCYDDS arni o ran y cynllun gweithredu, a nodwyd yn y rhan fwyaf o achosion fod arfer cyfredol y ddau Gyngor yn cydymffurfio'n fras â'r Siarter ond bod rhai meysydd i'w hystyried, a oedd yn canolbwyntio ar y penawdau canlynol: | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
|---|---|---|
| | • Deall diwylliant<br>• Cynllunio olyniaeth<br>• Amrywiaeth a chynwysoldeb<br>• Rheoli Risg<br>• Chwythu'r Chwiban<br><br>O ran yr adolygiad llywodraethu ar ddata ansoddol yn ymwneud â diwylliant, adroddodd y Clerc fod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi nodi bod diwylliant yn esblygu yn sgil argyfwng Covid-19, gyda phwyslais o'r newydd ar fod yn agored a chynhwysol a pherchnogi penderfyniadau. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno y dylai unrhyw set ddata fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cyd-destun a materion ehangach, ac ar ddangosyddion cadarnhaol yn ogystal â negyddol. Argymhelliad y Pwyllgor oedd y dylid cynnal yr adolygiad ffurfiol cyntaf o ddata ymhen blwyddyn.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried yr ymrwymiadau o ran amrywiaeth y corff llywodraethu a chydnabuwyd bod gwaith pellach yn ofynnol mewn rhai meysydd a fyddai'n cael sylw yn y strategaeth ar gyfer y rownd recriwtio nesaf.<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at reolaeth risg a nododd bod swyddogion wedi adolygu'r polisi risg ac y byddai adolygiad o'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn nesaf.<br><br>Nododd y Clerc y byddai'r adroddiad cyntaf ar chwythu'r chwiban yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Tachwedd cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.<br><br>Yn ogystal cyfeiriodd y Clerc at y ffurf newydd o adrodd yn flynyddol, i gynnwys adroddiadau gan bwyllgorau sefydlog. Roedd gwaith ar y gweill o fewn y sector ynglŷn â'r maes hwn, y byddai'r Brifysgol yn ymateb iddo maes o law.<br><br>Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i'r Clerc am y gwaith a wnaed a nodwyd bod Cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i argymhellion adroddiad Camm. Cyfeiriodd at sesiwn gweminar diweddar gyda Gillian Camm a nododd y pwyslais clir ar ddwy thema, sef diwylliant a risg. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
|---|---|---|
| | CYMERADWYODD y Cynghorau'r cynllun gweithredu anodedig a’r graddfeydd amser cysylltiedig a CHYTUNO y dylai’r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ymgymryd â gwaith monitro cynnydd y cynllun gweithredu. | |
| 20.21<br>Rheoli Risg | YSTYRIODD y Cynghorau’r Polisi Risg diwygiedig a’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ymwneud â PC a PCYDDS (JCO053).<br><br>Nododd y Clerc fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried a chefnogi’r Polisi Risg yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Roedd yr yegwyddorion a nodwyd yn y Polisi bellach wedi’u cymhwyso i’r Gofrestr Risg a oedd yn cael ei gyflwyno’n uniongyrchol i’r Cynghorau i’w ystyried a’i gymeradwyo ganddynt. Roedd Cofrestr Risg y Grŵp ar waith a byddai’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ddechrau tymor yr hydref.<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at y newidiadau allweddol i’r polisi a oedd yn cynnwys:<br><br>• Ychwanegu datganiad Goddefiant Risg a oedd yn mynegi goddefiant risg y Grŵp o ran pum maes effaith risg sefydliadol (Ansawdd, Parhad Busnes, Cydymffurfedd, Enw da, Perfformiad Ariannol a Chynaliadwyedd) ac yn disgrifio’r effaith fwyaf a fyddai’n cael ei goddef o dan bob un;<br>• Fframwaith Sgorio risg diwygiedig;<br>• Y model adrodd ar risg a oedd yn darparu diagram diweddaredig o’r strwythurau sefydliadol ar gyfer rheoli a monitro risg;<br>• Cofrestr Risg cliriach, byrrach a oedd yn caniatáu i’r Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Cyngor fonitro cynnydd o ran rheoli risg;<br>• Y cynnig y gallai’r Cyngor bennu Archwaeth Risg yn flynyddol yn rhan o’i drafodaethau cynllunio strategol.<br><br>Cyfeiriodd aelodau at y lefel goddefiant ar gyfer cynaliadwyedd ariannol a gofynnwyd i swyddogion ystyried caniatáu goddefiant pellach i’r meini prawf.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau<br>(a) Y polisi risg diwygiedig, yn amodol ar ychwanegu trothwyau ariannol PC a CSG, i’w gymeradwyo gan Swyddogion;<br>(b) Y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan nodi bod cofrestr risg y Grŵp ar waith. | Clerc i drafod gyda’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam Gweithredu / Penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 20.22<br>Gweithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol | CYMERADWYODD y Cyngor y weithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol (JCO054) | |
| 20.23<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 20.24<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Medi neu 1 Hydref 2020. | |